| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cabinet |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 28 Chwefror 2017 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol: | Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant/ Katie Newe, Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl |
| Awdur yr Adroddiad: | Liana Duffy, Swyddog Comisiynu a Thendro |
| Teitl: | Cynnig ar gyfer Cytundeb Cydweithredol Cefnogi Pobl CSDd a Clwyd Alyn |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Cynnig ar gyfer Cytundeb Cydweithredol Cefnogi Pobl (CP) CSDd a Chymdeithas Tai Clwyd Alun (CTCA) i gyflawni'r prosiect tai â chymorth Y Dyfodol.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Mae angen penderfyniad ar Cefnogi Pobl yn mynd i mewn i bartneriaeth gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn drwy Gytundeb Cydweithredol er mwyn cyflawni'r prosiect tai â chymorth Y Dyfodol o fis Hydref 2018.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**
Cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y cytundeb cydweithredol CP a CTCA hwn.

4. **Manylion yr adroddiad**
**4.1** Mae'r prosiect Y Dyfodol CTCA yn darparu 35 uned o dai â chymorth i bobl ifanc 16-25 oed, sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn Sir Ddinbych. Mae'r contract presennol yn dod i ben ar 30 Medi 2018.

**4.2** Cwblhawyd Adolygiad Gwasanaeth Y Dyfodol ar 11 Awst 2015, a oedd yn argymell ailfodelu. Yn y cyfamser, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r ymgynghorydd Anna Whalen i edrych ar ffyrdd o wella opsiynau tai a chymorth i bobl ifanc. Ymwelodd Anna â CSDd ym mis Ebrill eleni, a nododd yr angen i CP gael ei alinio'n fwy strategol â chomisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.

**4.3** O ganlyniad, ers Mehefin 2016, mae Cefnogi Pobl wedi bod yn cyfarfod â budd-ddeiliaid allweddol (gan gynnwys Gwasanaethau Plant, Datrysiadau Tai**,** Cyfiawnder Ieuenctid a chynrychiolwyr Iechyd, Diogelwch Cymunedol ac Addysg) i ddatblygu 'Llwybr Positif' Sir Ddinbych i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys Grŵp Llwybr Positif trosfwaol, yn ogystal ag Is-Grŵp Ailfodelu Y Dyfodol. Mae'r cynlluniau hyn hefyd wedi cael eu gosod allan fel blaenoriaeth yng Nghynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2017-18.

**4.4.** Bwriad Cefnogi Pobl yw ein bod yn ymuno mewn cytundeb cydweithredol gyda CTCA i ddarparu'r gwasanaeth wedi'i ailfodelu, ar ddiwedd contract Y Dyfodol presennol (ar ôl 2018), yn lle cynnal proses dendro cystadleuol.
**4.5** Ceisiwyd a derbyniwyd cymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cabinet ar 15 Tachwedd i ymchwilio ymhellach i'r cyfle i ddechrau'r cytundeb cydweithredol hwn.

Ers hyn, mae CP wedi cael sawl cyfarfod gyda Chlwyd Alyn ac wedi gofyn am gyngor cyfreithiol gan CSDd.

**4.5** Mae'r rhesymau canlynol wedi llywio'r penderfyniad i gyflwyno'r cynnig hwn:

**4.5.1.** Gan fod hwn yn ddull newydd ac yn datblygu i ddarparu gwasanaethau integredig amlapiol ar gyfer pobl ifanc, teimlir y byddai cytundeb cydweithredol yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd a pherthynas wahanol gyda'r darparwr nag sy'n cael ei gyflwyno o fewn cytundeb contractio traddodiadol.

**4.5.2** Mae Clwyd Alyn yn cyflenwi prosiect Y Dyfodol ar hyn o bryd ac wedi dangos ymrwymiad i archwilio cynigion ailfodel.

**4.5.3** Yn amodol ar gytundeb, gall newidiadau ailfodelu sy'n effeithio ar staff a llety gael eu gweithredu trwy'r 18 mis sy'n weddill o'r contract presennol.

**4.5.4** Cytunir ar gynigion ailfodelu o dan gyfarwyddyd Is-Grŵp Ailfodel Y Dyfodol; mae aelodau'n cynnwys Gwasanaethau Plant, Tai a Chyfiawnder Ieuenctid.

**4.5.5** Bydd y prosiect hwn yn cefnogi gwasanaethau statudol i ddiwallu sawl dyletswydd, gan gynnwys y Ddeddf Tai 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014.

**4.5.6** Mae Y Dyfodol yn darparu 35 uned llety â chymorth ar hyn o bryd, felly byddai'r amhariad posibl ar gefnogaeth, pe bai'r prosiect yn mynd allan i dendr yn sylweddol.

**4.5.7** Gallai tendr arwain at golli llety, a allai hefyd arwain at adeilad mawr nas defnyddir o fewn ardal adfywio Gorllewin y Rhyl.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y cynnig yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-17 yn y meysydd canlynol:-

- Datblygu'r economi leol
- Diogelu pobl ddiamddiffyn a galluogi iddynt fyw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Y gwerth am 3 blynedd fydd £1,179,618. Mae'r gost flynyddol o £393,206 eisoes wedi'i gyllido yn y Grant Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2017-18 ymlaen.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les rhwng 30/01/2017 a 13/02/2017. Roedd y cynnig wedi sgorio'n dda iawn yn yr asesiad cynaliadwyedd (4 seren allan o 4) ac wedi nodi effaith positif ym mhob maes, heblaw 1 niwtral ('Sir Ddinbych â diwylliant sy'n ffynnu ac iaith Gymraeg ffyniannus - tra ei bod yn ofynnol i bob prosiect CP gael polisi iaith Gymraeg, gan fod hwn yn ddarparwr presennol, ni ragwelir y byddai'r cynnig hwn yn cynnig unrhyw newid i'r perwyl hwn).

7.2. Mae adolygiadau gwasanaeth/rheoli contractau drwy gydol y flwyddyn yn ychwanegol yn sicrhau y gall unrhyw effeithiau negyddol gael eu nodi a rhoi sylw iddynt.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1. Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r llwybr pobl ifanc (a Chynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych), lle mae'r datblygiad hwn yn cael ei gasglu), mae'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl wedi derbyn diweddariadau a chymryd rhan mewn cynlluniau. Mae cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd hefyd wedi eu cynnal i ddatblygu cynlluniau gweithredu, cynigion ac ati gyda strwythur yn cynnwys grŵp llwybr pobl ifanc trosfwaol, ac is-grŵp ailfodelu Y Dyfodol.

8.2 Mae Cefnogi Pobl wedi cysylltu ag adran Gyfreithiol, CSDd i ddatblygu'r cynnig hwn (pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo) bydd adran y Gyfraith yn arwain ar ddatblygu'r Cytundeb Cydweithredol.

8.3 Yn ogystal, mae Cefnogi Pobl wedi comisiynu gwaith ymgynghori gyda phobl ifanc (i'w gynnal gan Cerddoriaeth Gymunedol a Ffilm TAPE), a fydd yn sicrhau barn pobl ifanc yn natblygiad y Llwybr Positif gan gynnwys y ddarpariaeth ailfodelu o fis Hydref 2018 ymlaen.

8.4 Rhoddwyd adborth ar ailfodel Y Dyfodol a datblygiad cyffredinol y llwybr positif fel rhan o ymgynghori cynhwysfawr ar y CCLl ar ddiwedd y llynedd.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae cost y prosiect yn ymrwymiad presennol o fewn y grant Cefnogi Pobl.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
10.1 Pe bai yna risg i ddarpariaeth y llety hwn, byddai'n hynod heriol sicrhau hyd at 35 uned o lety.

10.2. Mae yna hefyd risg na fydd y darparwr presennol yn dymuno darparu'r gwasanaeth hwn ar ôl Medi 2018. Bydd angen gwneud penderfyniad ar drefniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol gynted â phosibl, er mwyn rhoi digon o amser i wneud trefniadau eraill.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, paragraff 12(7)